# HYSBYSIAD O ETHOLIAD
# ETHOLIAD SENEDD CYMRU

# ETHOLAETH BRYCHEINIOG TAWE NEDD

1. Caiff etholiad ei gynnal ar gyfer Aelodau i wasanaethu yn y Senedd ar gyfer etholaeth Brycheiniog Tawe Nedd.
2. Gellir cael papurau enwebu gan swyddfa'r Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth, Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG, neu'n electronig drwy electoral.services@powys.gov.uk.
3. Mae'n rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG rhwng **9am a 4pm** ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn ond dim hwyrach na **4pm ar 9 Ebrill 2026** neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad trosglwyddiad electronig isod ond heb fod yn hwyrach na **4pm ar 9 Ebrill 2026**.
4. Gellir talu'r ernes o £500 fesul ymgeisydd unigol, neu'r ernes o £500 am yr ymgeisydd cyntaf ar restr plaid, a £200 am bob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar y rhestr plaid. Gellir talu un ai gydag arian parod, drafft banc (banciau'n gweithredu o fewn y Deyrnas Unedig yn unig) neu drwy drosglwyddiad banc uniongyrchol.
5. Os ymleddir yr etholiad, cynhelir y bleidlais ar **ddydd Iau, 7 Mai 2026.**
6. Mae'n rhaid i geisiadau i gael eu hychwanegu i'r Gofrestr o Bleidleiswyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn **20 Ebrill 2026.** Gellir cyflwyno cais ar-lein: **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**.
7. Mae'n rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ar 21 Ebrill 2026**.
8. Mae'n rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ar 28 Ebrill 2026**.

   Mae'n rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail analluedd corfforol neu am resymau gwaith / gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ddydd Iau, 7 Mai 2026**. Mae'n rhaid bod yr analluedd corfforol wedi digwydd ar ôl **5pm 28 Ebrill 2026**. I wneud cais ar sail gwaith / gwasanaeth mae'n rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol ar ôl **5pm 28 Ebrill 2026**.
9. Rhaid i bapurau enwebu a gyflwynir yn electronig cael eu cyflwyno yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaeth, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG

**Datganiad trosglwyddiad electronig**

- **Gwiriadau anffurfiol** – trwy e-bost i nominations@powys.gov.uk – nodwch 'GWIRIAD ANFFURFIOL - SENEDD-BTN-26' yn y pennawd pwnc.
- **Cyflwyno enwebiadau** – trwy e-bost i nominations@powys.gov.uk – nodwch 'CYFLWYNIAD FFURFIOL – SENEDD-BTN-26' yn y pennawd pwnc.
- Rhaid anfon eich papur enwebu fel atodiad, PDF neu ddogfen Word.
- Cofiwch osgoi anfon mwy nag un atodiad mewn e-bost, ac yn lle hynny rhowch yr holl bapurau enwebu mewn un ddogfen gyfan, er mwyn cadw maint y ffeil yn isel.
- Anfonwch yr holl bapurau enwebu mewn un neges e-bost fel bod y Swyddog Canlyniadau'n derbyn yr holl elfennau.

Bellach, gellir defnyddio llofnodion electronig yn lle llofnodion inc gwlyb wrth gyflwyno papurau enwebu mewn ffurf electronig. (e.e. llofnodion yr ymgeisydd a llofnodion tystion).

- Sylwer: Cyfrifoldeb y Swyddog Enwebu ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol fel y bo'n briodol yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol. (efallai na fydd papurau enwebu a anfonir at unrhyw gyfeiriadau e-bost eraill y Cyngor yn cael eu hystyried yn ddilys).
- Nid yw derbynneb darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn anfon hysbysiad o'u penderfyniad ynghylch a yw enwebiad yn ddilys ai peidio.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch gyda chyflwyno enwebiadau yn electronig, ffoniwch 01597 826202.

| Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer y Sir neu Bwrdeistref Sir | | |
|---|---|---|
| Powys | Gwasanaethau Etholiadol, Neuadd y Sir, Llandrindod, LD1 5LG | 01597 826202 |
| Castell-Nedd Port Talbot | Gwasanaethau Etholiadol, Canolfan y Ddinas, Port Talbot, SA13 1PJ | 01639 763330 |
| Abertawe | Gwasanaethau Etholiadol, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE | 01792 636123 |

**Emma Palmer**
**Swyddog Canlyniadau Etholaethol**

**Dyddiedig: 25/03/2026**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaeth, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG